

**2015 Rhif 1314 (Cy. 115)**

**TRAFFIG FFYRDD, CYMRU**

**Gorchymyn Cefnffordd yr A458  
(Church Street, Y Trallwng, Powys)  
(Gwahardd Cerbydau a Beicwyr  
Dros Dro) 2015**

*Gwnaed* 11 Mai 2015

*Yn dod i rym* 18 Mai 2015

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer y darn perthnasol o Gefnffordd yr Amwythig – Dolgellau (yr A458) (“y gefnffordd”), wedi eu bodloni y dylid gwahardd traffig ar ddarn penodedig o’r gefnffordd oherwydd gwaith y bwriedir ei wneud ar y ffordd neu gerllaw iddi.

Mae Gweinidogion Cymru, felly, drwy arfer y pwerau a roddwyd iddynt gan adran 14(1) a (4) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984(1) a phob pŵer galluogi arall(2) yn gwneud y Gorchymyn hwn.

**Enwi, Dehongli a Chychwyn**

1. Daw’r Gorchymyn hwn i rym ar 18 Mai 2015 a’i enw yw Gorchymyn Cefnffordd yr A458 (Church Street, Y Trallwng, Powys) (Gwahardd Cerbydau a Beicwyr Dros Dro) 2015.

2. —(1) Yn y Gorchymyn hwn:

ystyr “cyfnod y gwaith” (“*works period*”) yw’r cyfnod hwnnw sy’n dechrau am 08:00 o’r gloch ar 18 Mai 2015 ac sy’n dod i ben pan gaiff yr arwyddion traffig dros dro eu symud ymaith yn barhaol;

ystyr “y darn o’r gefnffordd” (“*the length of the trunk road*”) yw’r darn o’r gefnffordd a elwir yn Church Street yn y Trallwng yn Sir Powys sy’n ymestyn o’i chyffordd â Mill Lane hyd at ei chyffordd â The Cross.

(2) Mae unrhyw gyfeiriad yn y Gorchymyn hwn at erthygl â rhif yn gyfeiriad at yr erthygl sy’n dwyn y rhif hwnnw yn y Gorchymyn hwn.

## **Gwaharddiadau**

3. Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau erthygl 5, ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd, na pheri na chaniatáu i unrhyw gerbyd fynd ar y darn o'r gefnffordd.

4. Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau erthygl 5, ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw feic pedal, na pheri na chaniatáu i unrhyw feic pedal gael ei reidio ar y darn o'r gefnffordd.

## **Cymhwyso**

5. Ni fydd darpariaethau erthyglau 3 a 4 yn gymwys ond ar yr adegau hynny ac i'r graddau hynny y bydd arwyddion traffig yn dangos bod y gwaharddiadau y maent yn cyfeirio arnynt yn weithredol.

## **Cyfnod Para'r Gorchymyn hwn**

6. Bydd y Gorchymyn hwn yn para am 6 mis ar y mwyaf.

Llofnodwyd o dan awdurdod Gweinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth, un o Weinidogion Cymru.

Dyddiedig

11 Mai 2015

*R Morgan*

## **RICHARD MORGAN**

Pennaeth Rheoli Asedau a Safonau  
Llywodraeth Cymru

(1) 1984 p.27; amnewidiwyd adran 14 gan adran 1(1) o Ddeddf Traffig Ffyrdd (Cyfyngiadau Dros Dro) 1991 (p.26), ac Atodlen 1 iddi.

(2) Yn rhinwedd erthygl 2 o O.S. 1999/672, ac Atodlen 1 iddo, a pharagraff 30 o Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, mae'r pwerau hyn yn arferadwy bellach gan Weinidogion Cymru o ran Cymru.